DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## Practis Deintyddol Heol Cas-gwent

Dyddiad arolygu: 12 Medi 2016

Dyddiad cyhoeddi: 13 Rhagfyr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-7264-8
© Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

4. Canfyddiadau .......... 5

    Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

    Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 8

    Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 15

5. Y Camau Nesaf .......... 18

6. Methodoleg .......... 19

    Atodiad A .......... 21

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Heol Cas-gwent yn 18 Heol Cas-gwent, Casnewydd, NP19 8EA , ar 12 Medi 2016.

Archwiliodd AGIC sut roedd Practis Deintyddol Heol Cas-gwent yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Heol Cas-gwent yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Casnewydd de Cymru. Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Practis Deintyddol Heol Cas-gwent yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Mae'r practis yn darparu triniaethau'r GIG ar gyfer plant yn unig. Roedd un o'r deintyddion yn y practis yn gallu cynnig gwasanaeth tawelu ymwybodol i gleifion.

Roedd tîm y practis yn cynnwys dau ddeintydd, dwy nyrs ddeintyddol, un rheolwr practis ac un hylenydd rhan amser.

Roedd y practis yn gweithredu ar sail partneriaeth rhannu costau rhwng y ddau ddeintydd, Mr Evans a Mr Brunswick. Mae hyn yn golygu eu bod yn rhannu rhai o gostau a chyfrifoldebau'r practis, gan gynnwys biliau gwasanaethau, costau rheoli gwastraff, a chyffuriau ac offer brys, ac roeddent yn rhannu polisïau a gweithdrefnau, un ystafell driniaeth, y tŷ bach i staff, yr ystafell staff, yr ardal aros a'r tŷ bach i gleifion. Mae Mr Evans a Mr Brunswick yn cyflogi rheolwr y practis ar y cyd.

Roedd pob deintydd yn cyflogi ei nyrs ddeintyddol ei hun, ac roeddent yn cyflogi'r un hylenydd am un diwrnod yr wythnos. Mae Mr Evans a Mr Brunswick yn gyfrifol am reoli eu hystafelloedd triniaeth eu hunain, a'r offer ym mhob ystafell driniaeth.

At ddiben yr adroddiad hwn, lleolir ystafell driniaeth A yng nghefn y practis, ystafell driniaeth B ym mlaen y practis ac ystafell driniaeth C y tu ôl i'r dderbynfa.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan gwelsom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Heol Cas-gwent yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwelliannau i rai meysydd clinigol.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr adborth a gawsom drwy holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol
- Gwelwyd bod y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion yn foesgar ac yn gwrtais.
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd rhai cyfleusterau clinigol wedi eu cyfarparu'n dda, ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Mae angen ailwampio ystafell driniaeth A i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r safonau priodol
- Mae angen gweithredu gwiriadau o gyffuriau brys ac offer meddygol
- Rhaid i'r practis weithredu ei bolisi ei hun ar gyfer archwiliadau
- Mae angen diweddaru polisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn benodol i'r practis, ac mae angen hysbysu'r staff am newidiadau'n effeithiol
- Mae angen gweithredu proses ar gyfer casglu adborth gan gleifion ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer

# 4. Canfyddiadau

## *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom fod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Cafodd cyfanswm o 20 holiadur eu cwblhau cyn yr arolygiad, gyda phump ychwanegol yn cael eu cwblhau gan gleifion ar ddiwrnod ein harolygiad.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd ac a ddychwelodd holiadur eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn gan y practis deintyddol. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r gwasanaeth o'r radd flaenaf, o'r broses dderbyn i'r ôl-ofal"*
>
> *"Yn fy mhrofiad i, mae'r practis bob amser yn darparu gwasanaeth gofalgar, cyfeillgar ond proffesiynol, lle mae'r holl staff yn cyflawni eu gwahanol rolau"*
>
> *"Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan y gwasanaeth hwn yn cyfuno triniaeth ddeintyddol ragorol, gan gynnwys triniaeth ataliol, â chroeso cyfeillgar ac effeithlon"*
>
> *"Staff gwych, gofal gwych, canlyniadau gwych"*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, urddasol a phroffesiynol.

Roedd yr holiaduron cleifion a gwblhawyd yn dangos bod cleifion yn fodlon ar lefel y gofal a thriniaeth a ddarperid ar eu cyfer. Dywedodd yr holl gleifion a oedd wedi cwblhau a dychwelyd holiaduron wrthym fod tîm y practis wedi rhoi croeso cynnes iddynt, a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth.

Roedd y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Roedd gwybodaeth am ffioedd am driniaeth ddeintyddol breifat a thriniaeth y GIG ar gael i'w gweld yn y dderbynfa. Mae hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio.

Roedd taflen wybodaeth ar gyfer y practis ar gael i gleifion yn y dderbynfa. Roedd y daflen yn darparu gwybodaeth gyffredinol am y practis.

Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a roddodd sylwadau yn holiaduron AGIC wrthym nad oeddent wedi profi oedi o ran cael eu gweld gan eu deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd yr ychydig o bobl a oedd wedi profi oediadau mai bach iawn oeddent, ac nid oeddent wedi peri problem.

Roedd rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau ar gael i gleifion ei ffonio pe bai angen triniaeth ddeintyddol arnynt ar frys. Roedd rhifau ffôn i gleifion preifat a chleifion y GIG eu ffonio mewn argyfwng wedi eu harddangos ar ddrws ffrynt y practis, ac roedd y rhifau ffôn hefyd ar gael yn nhaflen wybodaeth y practis. Roedd y rhifau ffôn hefyd wedi eu cynnwys ar neges peiriant ateb y practis. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth y tu allan i oriau. Gwnaeth un claf sylwad ychwanegol yn nodi bod y gwasanaeth y tu allan i oriau'n dda iawn.

Cadw’n iach

Gwelsom fod gwybodaeth am hyrwyddo iechyd ar gael i gleifion yn y practis, er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am hylendid ac iechyd eu ceg eu hunain.

Roedd yr holl gleifion a ddychwelodd holiaduron yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwnaeth pum claf sylwadau ychwanegol yn disgrifio sut roeddent wedi cael eu llawn hysbysu am eu triniaethau.

Gofal unigol

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion ag anawsterau symudedd yn gallu cael mynediad at ei wasanaethau. Roedd y practis wedi'i leoli ar y llawr daear ac yn darparu mynediad ar gyfer y rhai sy'n defnyddio cymhorthion cerdded neu gadeiriau olwyn trwy ddrws yn ochr yr adeilad.

Roedd gan y practis flwch *'sylwadau, canmoliaeth a chwynion'* yn yr ardal aros er mwyn i gleifion rhoi adborth. Gellid gwneud hyn yn ddienw pe bai claf yn dymuno gwneud hynny.

Gwelsom fod y practis wedi llunio gweithdrefn gwyno ysgrifenedig. Roedd copïau o'r weithdrefn ar gael i gleifion y tu ôl i ddesg y dderbynfa, ac roedd angen gofyn amdanynt. Dylai cleifion allu cyrraedd copïau o'r weithdrefn yn

hawdd. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol hefyd yn disgwyl hyn. Cytunodd rheolwr y practis i wneud y newid hwn ar unwaith.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid arddangos y weithdrefn gwyno mewn lle amlwg yn y practis fel nad oes rhaid i gleifion ofyn am gopi.***

Disgrifiodd y practis broses ar gyfer rheoli cwynion cleifion  Dywedwyd wrthym fod cwynion ffurfiol a dderbyniwyd yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r claf a llyfr cofnodi cwynion.  Gwnaethom argymell bod y practis yn cofnodi pryderon anffurfiol hefyd i nodi themâu a thueddiadau.

Roedd angen diweddaru'r weithdrefn gwyno ar gyfer cleifion y GIG i sicrhau ei bod yn cyfeirio at y bwrdd iechyd cywir. Cytunodd rheolwr y practis i wneud hyn ar ddiwrnod yr arolygiad.

Er bod blwch '*sylwadau, canmoliaeth a chwynion*' yn yr ardal aros, nid oedd gan y practis system ar waith ar gyfer casglu adborth rheolaidd gan gleifion mewn modd gweithredol, ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd ar eu cyfer.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis ddiweddaru ei weithdrefn gwyno er mwyn iddi gyfeirio at y bwrdd iechyd a'r manylion cyswllt cywir.***

***Rhaid i'r bwrdd iechyd weithredu system ar gyfer casglu adborth gan gleifion yn rheolaidd, mewn modd gweithredol, ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Roedd safon y cyfleusterau clinigol yn y practis yn amrywio, a gwnaethom nodi bod angen gwelliannau i fodloni safonau derbyniol.**

**Gwnaethom nodi bod angen i'r practis weithredu ei bolisi ei hun ar gyfer archwiliadau clinigol, a chyflwyno gwiriadau, a bod angen cyflwyno gwiriadau o gyffuriau ac offer brys.**

Gofal diogel

Roedd mannau'r adeilad a oedd yn cael eu rhannu i'w gweld wedi eu cynnal a'u cadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan. Yn ystod taith o gwmpas y practis roedd yn amlwg bod y coridorau a'r ardal aros yn lân, yn daclus ac yn rhydd rhag peryglon amlwg. Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol fannau o gwmpas y practis. Roedd gan y practis gontract ar waith ar gyfer gwasanaethu'r offer tân bob blwyddyn, ac roedd yr offer wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchid gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio mewn cynhwysydd cloadwy pan oedd yn aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractio. Roedd offer gwahanu amalgam yn cael eu defnyddio er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Disgrifiwyd y trefniadau a oedd ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus (domestig).

Nid oedd gan y practis ystafell ddadheintio neilltuedig fel yr argymhellir yn nogfen ganllaw Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1)[1] Trafododd y practis eu cynlluniau i gynnwys ystafell ddadheintio neilltuedig yn y dyfodol. Mynegwyd anawsterau oherwydd y diffyg lle ar gael o fewn trefn gyfredol yr adeilad, a oedd yn golygu bod y cynlluniau adeiladu cyfredol wedi'u gohirio. Argymhellwyd bod y practis yn ailystyried datblygu'r adeilad i ganiatáu am ystafell ddadheintio sengl yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

[1] Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynglŷn â dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ystyried cynlluniau ar gyfer y dyfodol a fydd yn cynnwys ystafell ddadheintio neilltuedig o fewn adeilad y practis.***

Cafodd y broses ddadheintio ei dangos gan staff. Roedd yn amlwg bod lle o fewn ystafell driniaeth A yn gyfyngedig, ac yn gwneud y broses o lanhau offer yn fwy anodd.  Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â'r ystafelloedd triniaeth yn cael ei harchwilio'n nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Roedd offerynnau'n cael eu glanhau â llaw ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol, ac wedyn yn cael eu trosglwyddo i gael eu sterileiddio yn y modd priodol.  Roedd dau [2]beiriant awtoclaf yn cael eu defnyddio yn y practis – un ar gyfer pob deintydd.  Gwelsom dystiolaeth bod y ddau beiriant wedi cael eu harchwilio a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd profion yn cael eu cynnal ar ddechrau ac ar ddiwedd pob dydd i ddangos bod y peiriannau'n parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio, ac roedd y canlyniadau'n cael eu cofnodi mewn llyfrau cofnodion.

Roedd offerynnau wedi eu glanhau a'u sterileiddio'n cael eu storio mewn bagiau wedi eu selio yn yr ystafelloedd triniaeth er mwyn atal croes-heintio. Er bod y dyddiadau prosesu (glanhau a sterileiddio) wedi eu hysgrifennu ar y bagiau, rydym wedi argymell y dylid hefyd ychwanegu'r dyddiadau sy'n nodi erbyn pryd y mae'n rhaid i'r offer gael eu defnyddio neu eu hailbrosesu, er mwyn llwyr gydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis gofnodi'r dyddiad sy'n nodi erbyn pryd y dylid defnyddio neu ailbrosesu'r offer ar becynnau'r offer wedi eu dadheintio***

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 o drefniadau dadheintio pob ystafell driniaeth ym mis Chwefror 2016. Nid oedd yn eglur a oedd canlyniadau'r archwiliad wedi cael eu cyflwyno i Ddeoniaeth Cymru[3], a oedd yn golygu nad oedd argymhellion ynglŷn â

---

[2] Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

[3]Mae Deoniaeth Cymru yn darparu addysg feddygol a deintyddol ôl-raddedig ar gyfer Cymru.

meysydd i'w gwella ar gael o ganlyniad i'r archwiliad. Gwnaethom argymell y dylai'r practis roi system ar waith i sicrhau bod canlyniadau archwiliadau'n cael eu dogfennu ac y cymerir y camau priodol.

Yn ystod yr ymweliad arolygu, gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) sydd ar gael yn y practis.

Cyfleusterau Clinigol – Ystafell Driniaeth A

Ni roddwyd sicrwydd inni fod amgylchedd ystafell driniaeth A yn lân a bod y cyfleusterau o safon dda. Er enghraifft, gwelsom y canlynol:

- Roedd y cypyrddau'n bren ac nid oedd yr arwyneb laminedig a oedd wedi treulio yn caniatáu iddo gael ei lanhau'n hawdd
- Nid oedd gan y cypyrddau ddigon o le storio ar gyfer deunyddiau ac offer technegol, gan arwain at yr angen i storio deunyddiau ac offer ar droliau heb orchudd ar bob ochr o'r cypyrddau
- Nid oedd y droriau a oedd yn cynnwys deunyddiau ac offer deintyddol yn lân nac yn drefnus
- Roedd offer tawelu yn cael eu storio mewn rhan agored o'r cypyrddau
- Roedd yr ardal eistedd fach o fewn yr ystafell driniaeth wedi'i garpedu
- Roedd angen selio'r llawr yn erbyn y cypyrddau i ganiatáu glanhau effeithiol.
- Nid oedd y cypyrddau'n cyffwrdd â'r waliau, a oedd yn gadael bwlch a oedd yn ei gwneud yn bosibl i lwch a budredd gasglu
- Roedd yr ystafell yn anniben ac roedd angen archwilio'r offer a'r deunyddiau nad oeddent yn cael eu defnyddio bellach

Gwnaethom drafod ein canfyddiadau â'r deintydd a oedd yn gyfrifol am ystafell driniaeth A, a chytunwyd bod angen ei hailwampio – a bod angen gwneud hyn fel mater o frys. Ar ddiwrnod yr arolygiad dywedodd y deintydd wrthym ei fod wedi cysylltu â chyflenwr deintyddol, a gofyn iddo ymweld â'r gwasanaeth a rhoi dyfynbris ar gyfer y gwaith a oedd ei angen yn dilyn ein canfyddiadau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i'r deintydd sy'n gyfrifol am ystafell driniaeth A sicrhau bod yr ystafell driniaeth yn addas i'r diben, yn lân ac yn hylan, yn unol â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05***

***Dylai'r deintydd sy'n gyfrifol am ystafell driniaeth A osod carped newydd yn yr ystafell driniaeth yn unol â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05***

***Dylai'r deintydd sy'n gyfrifol am ystafell driniaeth A gynnal archwiliad o'r offer a'r deunyddiau nad ydynt yn cael eu defnyddio bellach, a gwaredu arnynt mewn modd priodol***

Cyfleusterau Clinigol – Ystafell Driniaeth B

Roedd y cyfleusterau clinigol yn ystafell driniaeth B yn lân, yn daclus, ac ar y cyfan, wedi eu dodrefnu i hwyluso glanhau effeithiol.  Roedd carped mewn un rhan o'r ystafell driniaeth a oedd angen ei symud a gosod llawr newydd priodol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r deintydd sy'n gyfrifol am ystafell driniaeth B osod carped newydd yn yr ystafell driniaeth yn unol â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05***

Cyfleusterau Clinigol – Ystafell Driniaeth C

Roedd y deintyddion yn rhannu'r cyfrifoldeb am ystafell driniaeth C.  Gwelsom nad oedd y llawr yn yr ystafell driniaeth wedi'i selio'n briodol rhwng y cypyrddau a'r llawr.  Rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr yn cael ei selio er mwyn rhwystro dŵr, llwch a malurion rhag cronni ym mannau'r llawr nad ydynt wedi'u selio a ddangoswyd i'r deintyddion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y llawr yn ystafell driniaeth C yn cael ei selio'n briodol rhwng y cypyrddau a'r llawr sydd eisoes yn bodoli***

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu/cwympo). Gwelsom hefyd gofnodion a oedd yn dangos bod y cyffuriau a rhai o'r offer yn cael eu gwirio bob blwyddyn.  Gwnaethom drafod yr angen i weithredu proses ar gyfer gwirio cyffuriau ac offer brys yn rheolaidd â'r practis, yn unol â'r safonau a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU)[4], a chadw

---

[4] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

cofnodion priodol o'r holl wiriadau. Cadarnhaodd y practis ar lafar y rhoddid proses ar waith ar unwaith. Ar adeg yr arolygiad roedd yr holl gyffuriau brys o fewn eu dyddiad dod i ben, ac roedd yr holl offer brys yn bresennol. Fodd bynnag, canfuom fod y padiau ar gyfer y diffibriliwr cludadwy wedi mynd heibio eu dyddiad dod i ben. Gwnaethom hysbysu'r practis am y mater hwn a chafodd padiau newydd eu harchebu ar yr un dydd.

Nid oedd yr ocsigen cludadwy'n cael ei storio gyda'r cyffuriau brys ac offer brys eraill, oherwydd cyfyngiadau ar le storio yn y practis. Gwnaethom argymell y dylai'r practis storio'r holl offer a chyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng claf yn yr un lle, er mwyn cael mynediad atynt yn hawdd. Cytunodd y practis i drefnu lle storio arall er mwyn sicrhau bod yr holl gyffuriau ac offer brys yn cael eu storio yn yr un lle. Rhoddwyd sicrwydd ar lafar inni fod camau wedi eu cymryd gan y practis ar unwaith i roi sylw i'r pryderon hyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis weithredu proses ar gyfer gwirio cyffuriau ac offer brys yn rheolaidd, yn unol â'r safonau ansawdd a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU), a chadw cofnodion priodol***

***Dylai'r practis ystyried storio'r holl gyffuriau ac offer brys yn yr un lle, er mwyn cael mynediad atynt yn hawdd pe bai argyfwng claf***

Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod hyfforddiant y staff mewn adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) yn gyfredol.

Roedd gan ddeintyddion eu hoffer radiograffig (pelydr-X) eu hunain i'w ddefnyddio ym mhob ystafell driniaeth, ac roeddent yn rhannu'r defnydd o un peiriant pelydr-X arall. Gwelsom dystiolaeth bod archwiliad o'r offer pelydr-X wed'ii gynnal yn ddiweddar. Gwelsom dystysgrifau ar gyfer canlyniadau gwiriadau dau o'r peiriannau pelydr-X, fodd bynnag, roedd un dystysgrif ar goll. Gwnaethom hysbysu'r practis am ein canfyddiadau, a gwnaethant gymryd camau ar unwaith i gael cadarnhad gan y cwmni a gynhaliodd y gwasanaeth bod yr holl offer yn ddiogel i'w defnyddio. Rhoddwyd sicrwydd ar lafar inni fod yr holl wiriadau gofynnol ar gyfer yr offer pelydr-X wedi'u cynnal. Gwnaethom ofyn i'r practis anfon y ddogfennaeth a oedd ar goll at AGIC i gadarnhau canlyniad y gwiriad o'r offer.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y deintyddion wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio.

Gwelsom fod y rheoliadau lleol ar gyfer defnyddio'r peiriant pelydr-X a oedd yn cael ei rannu wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd ym mis Medi 2016. Roedd y Cynghorydd Diogelu rhag

Ymbelydredd wedi cynyddu’r parth gwahardd o gwmpas y peiriant pelydr-X pan oedd yr offer yn cael eu defnyddio.  Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn ffurfioli'r broses ar gyfer cydymffurfio â'r parth gwahardd newydd pan fydd y peiriant pelydr-X yn cael ei ddefnyddio.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis ddarparu cadarnhad ynglŷn â gwiriadau o offer pelydr-X a gynhaliwyd yn 2016 ar gyfer pob peiriant pelydr-X, ynghyd â'r canlyniadau***

***Rhaid i'r practis ffurfioli'r broses ar gyfer cydymffurfio â pharth gwahardd y peiriant pelydr-X sy'n cael ei rannu pan fydd yn cael ei ddefnyddio***

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy’n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn cadarnhau bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon a oedd yn ymwneud â’r gwaith wrth staff uwch y practis, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

Roedd gan y practis bolisi llywodraethu clinigol a oedd yn disgrifio’r archwiliadau y dylai'r practis eu cynnal.  Nid oeddem yn gallu cadarnhau bod archwiliadau o arferion clinigol na sicrwydd ansawdd yn cael eu cynnal.  Dylai'r practis fynd ymlaen â'r gwaith o weithredu ei bolisi ei hun er mwyn sicrhau bod amrediad o archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal, a bod cynlluniau gwella'n cael eu datblygu a'u monitro yn rhan o'r gweithgareddau gwella ansawdd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis fynd ymlaen â'r gwaith o weithredu ei bolisi ei hun ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol, gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella yn rhan o weithgareddau'r practis i wella ansawdd. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel bo'n briodol***

<u>Gofal effeithiol</u>

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion a oedd wedi’u cwblhau gan y ddau ddeintydd a oedd yn gweithio yn y practis. At ei gilydd, roedd y nodiadau yn ddigon manwl. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai themâu cyffredin y dylid eu gwella. Roeddent fel a ganlyn:

- Nid oedd y deintyddion wedi cydlofnodi'r hanesion meddygol. Byddai hyn yn dangos bod deintyddion wedi ystyried cyflyrau meddygol cleifion ac unrhyw feddyginiaethau yr oeddent yn eu cymryd wrth gynllunio gofal a thriniaeth ddeintyddol.
- Nid oedd y deintyddion wedi nodi defnydd o alcohol a thybaco cleifion, nac unrhyw gyngor ar hybu iechyd a ddarparwyd. Byddai hyn yn dangos bod deintyddion wedi asesu cleifion o ran eu risg o ddatblygu canser y geg a'u bod wedi rhoi cyngor ar sut y gellid lleihau'r risg hon.

Gwnaethom nodi bod gwahaniaethau yn y ffordd roedd y ddau ddeintydd yn cael cydsyniad cleifion cyn triniaeth. Gwnaethom argymell y dylid dogfennu cydsyniad a roddir ar lafar a chostau'n ffurfiol yng nghofnodion cleifion, i ddangos bod cleifion wedi deall yr opsiynau a drafodwyd gyda nhw.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoliadol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Mae'r practis yn cael ei weithredu fel partneriaeth rhannu costau rhwng y ddau ddeintydd sy'n gweithio yn y practis. Mae'r ddau ddeintydd yn rhannu rhywfaint o gyfrifoldeb ariannol a rheolaethol am y gwaith o weithredu'r practis, fodd bynnag, maent yn rheoli eu hystafelloedd triniaeth eu hunain, ac maent yn cyflogi eu nyrs ddeintyddol eu hunain.**

**Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, ond roedd angen diweddaru rhai ohonynt.**

**Dywedodd staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan y practis Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.**

Mae'r practis yn cael ei weithredu fel partneriaeth rhannu costau rhwng y ddau ddeintydd. Maent yn rhannu costau a chyfrifoldeb am filiau gwasanaethau, costau rheoli gwastraff, cyffuriau ac offer brys, ac maent yn rhannu polisïau a gweithdrefnau, ystafell driniaeth C, y tŷ bach i staff, yr ystafell staff, yr ardal aros a'r tŷ bach i gleifion. Mae Mr Evans a Mr Brunswick yn cyflogi rheolwr y practis ar y cyd. Mae pob deintydd yn cyflogi ei nyrs ddeintyddol ei hun ac roeddent yn cyflogi'r un hylenydd am un diwrnod yr wythnos. Mae Mr Evans a Mr Brunswick yn gyfrifol am reoli eu hystafelloedd triniaeth eu hunain, a'r offer ym mhob ystafell driniaeth.

Mae rheolwr y practis yn cyflawni rôl ganolog ynglŷn â chydlynu a rheoli'r cyfathrebu yn y practis ar gyfer staff a deintyddion.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Roedd angen adolygu a diweddaru rhai o'r rhain i sicrhau bod y polisïau'n briodol i'r practis. Gwelsom nad oedd gan bob polisi a gweithdrefn ddyddiadau adolygu a/neu nad oeddent wedi cael eu llofnodi gan staff i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cynnwys. Dylai'r practis sicrhau ei fod yn gallu dangos bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, a'u bod yn cael eu cyfathrebu i'r holl staff i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis gynnal adolygiad o'r holl bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn benodol i'r practis, ac i ffurfioli'r broses ar gyfer cyfathrebu newidiadau i'r holl staff***

Dywedodd staff wrthym eu bod yn dîm cyfeillgar a'u bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i'w galluogi i gyflawni'r eu rolau'n effeithiol. Dywedwyd wrthym hefyd fod staff yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant perthnasol i'w galluogi i gyflawni eu rolau.  Cadarnhaodd staff fod ganddynt fynediad at hyfforddiant priodol. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff wedi derbyn yr arfarniad cyntaf o'u gwaith.  Dywedwyd wrthym fod cynllun ar waith i weithredu arfarniadau ffurfiol bob blwyddyn yn y dyfodol.

Dywedodd staff wrthym fod cyfathrebu ymhlith tîm y practis yn dda, a bod cyfarfodydd anffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.  Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd practis ffurfiol yn cael eu cynnal yn llai rheolaidd, a gwelsom dystiolaeth o agenda o'r cyfarfod diweddaraf.  Gwnaethom argymell y dylai'r practis gofnodi trafodaethau a chanlyniadau'r cyfarfodydd practis ffurfiol er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Mae angen i'r practis ddatblygu cyfarfodydd staff ffurfiol gyda chofnodion ysgrifenedig***

Gwelsom fod staff clinigol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt yswiriant indemniad. Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion rhag heintiau.  Gwnaethom argymell y dylai'r practis adnewyddu eu gwybodaeth am y canllawiau cyfredol ar gyfer firysau a gludir yn y gwaed, gan sicrhau bod ffeiliau staff yn cydymffurfio â'r canllawiau priodol.

Roedd deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd eu tystysgrifau cofrestru ag AGIC wedi eu harddangos mewn lle amlwg fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat. Roedd angen diweddaru eu tystysgrifau i gynnwys cyfeiriad cywir AGIC. Cytunodd y rheolwr practis i hysbysu'r deintyddion bod angen cysylltu ag AGIC fel bod modd cyflwyno tystysgrifau wedi'u diweddaru.

Nid oedd tystysgrifau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer yr holl ddeintyddion a oedd yn gweithio yn y practis. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, mae'n ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif y

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i chyflwyno o fewn y tair blynedd diwethaf. Gwnaethom gadarnhau bod y deintyddion wedi gwneud cais am dystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ond nid oeddent ar gael i'w harchwilio ar y pryd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i bob deintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat feddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i chyflwyno i AGIC i'w harchwilio***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Heol Cas-went yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.


Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[5] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[6] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[6] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC;
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Heol Cas-gwent

## Dyddiad yr arolygiad: 12 Medi 2016

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 7 | Rhaid arddangos y weithdrefn gwyno mewn lle amlwg yn y practis fel nad oes rhaid i gleifion ofyn am gopi. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 15 (2) | Cafodd nifer o gopïau eu hargraffu, eu harddangos mewn lle amlwg a'u gwneud ar gael yn yr ystafell aros ar ddiwrnod yr arolygiad. | Vicky Piddington | Cwblhawyd ar 12/09/2016 |
| 7 | Rhaid i'r practis ddiweddaru ei | Safonau Iechyd a | Cafodd polisi cwyno newydd ei argraffu i gynnwys y bwrdd iechyd | Vicky Piddington | Cwblhawyd ar |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | weithdrefn gwyno er mwyn iddi gyfeirio at y bwrdd iechyd a'r manylion cyswllt cywir. | Gofal (Ebrill 2015)<br>Safon 6.3 | cywir a'r manylion cyswllt cyfredol ar ddiwrnod yr arolygiad, a chafodd yr hen un ei larpio i'w waredu. | | 12/09/2016 |
| 7 | Rhaid i'r bwrdd iechyd weithredu system ar gyfer casglu adborth gan gleifion yn rheolaidd, mewn modd gweithredol, ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis. | Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015)<br>Safon 6.3 | Mae ffurflen adborth wedi cael ei llunio ac mae nifer o gopïau wedi eu hargraffu a'u rhoi mewn lle amlwg yn yr ystafell aros, pe bai cleifion yn dymuno mynd ag un. | Vicky Piddington | Cwblhawyd ar 14/09/2016 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 9 | Dylai'r practis ystyried cynlluniau ar gyfer y dyfodol a fydd yn cynnwys ystafell ddadheintio neilltuedig o fewn adeilad y practis. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (6) | Mae diffyg lle ar hyn o bryd, ond rydym wedi trefnu dyddiad i gwmni ddod ac awgrymu atebion/dyluniadau posibl | Vicky Piddington | Yn parhau |
| 9 | Dylai'r practis cofnodi'r dyddiad sy’n nodi erbyn pryd y dylid defnyddio neu ailbrosesu’r offer ar becynnau'r offer wedi eu dadheintio. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i | Mae'r nyrsys yn y ddwy ystafell driniaeth wedi cytuno i gofnodi'r dyddiad prosesu a'r dyddiad ar gyfer eu defnyddio ar becynnau o offerynnau sydd wedi cael eu | B. A. Brunswick<br>P. J. Evans | Eisoes wedi'i weithredu ar 13/09/2016 ac yn |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (4) | dadheintio, gydag effaith o ddyddiad yr arolygiad | | parhau |
| 10 | Mae angen i'r deintydd sy'n gyfrifol am ystafell driniaeth A sicrhau bod yr ystafell driniaeth yn addas i'r diben, yn lân ac yn hylan, yn unol â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (6) | Mae ystafell driniaeth newydd wedi cael ei dylunio a'i harchebu yn barod i'w gosod ar 17 Chwefror 2017. Bydd hyn yn gweithio tuag at yr arferion gorau fel y'u hamlinellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Mr P. J. Evans | I'w gwblhau erbyn 6ed Mawrth 2017 |
| 10 | Dylai'r deintydd sy'n gyfrifol am ystafell driniaeth A osod carped newydd yn yr ystafell driniaeth yn unol â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (6) | Bydd deunydd llawr newydd yn cael ei archebu yn y dyfodol agos, a bydd yn cael ei osod yn yr ystafell driniaeth newydd ar 17 Chwefror 2017 | Mr P. J. Evans | I'w gwblhau erbyn 6ed Mawrth 2017 |
| 11 | Dylai'r deintydd sy'n gyfrifol am ystafell driniaeth A gynnal archwiliad o'r offer a'r deunyddiau nad ydynt yn | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Mae'r archwiliad yn mynd rhagddo, ac mae wedi'i drefnu i gael ei gwblhau erbyn i'r ystafell driniaeth newydd gael ei gosod ym mis | Mr P. J. Evans | I'w gwblhau erbyn 6ed Mawrth 2017 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | cael eu defnyddio bellach, a gwaredu arnynt mewn modd priodol. | 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (6) | Chwefror 2017. | | |
| 11 | Dylai'r deintydd sy'n gyfrifol am ystafell driniaeth B osod carped newydd yn yr ystafell driniaeth yn unol â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (6) | Bydd y carped yn cael ei newid o fewn y tri mis nesaf | Mr B. A. Brunswick | Erbyn Rhagfyr 2016 |
| 11 | **Dylai'r practis sicrhau bod y llawr yn ystafell driniaeth C yn cael ei selio'n briodol rhwng y cypyrddau a'r llawr sydd eisoes yn bodoli.** | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (6) | Mae Mr Steve Parry (cwmni cynnal a chadw) wedi selio'r holl fylchau rhwng y cypyrddau a'r llawr a oedd yn amlwg yn ystafell driniaeth C | Vicky Piddington | Cwblhawyd ar 13/10/2016 |
| 12 | Rhaid i'r practis weithredu proses ar gyfer gwirio cyffuriau ac offer brys yn | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat | Mae ffurflen wedi’i llunio a'i gweithredu ar gyfer cofnodi'r holl wiriadau wythnosol o'r holl gyffuriau | Vicky Piddington | Gweithredwyd ar 13/09/2016 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | rheolaidd, yn unol â'r safonau ansawdd a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU), a chadw cofnodion priodol. | (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 14(2) | ac offer brys, yn unol â'r safonau ansawdd a amlinellir gan y Cyngor Dadebru (DU), ac mae'n yn cael ei llofnodi a'i dyddio bob wythnos | | ac yn parhau |
| 12 | Dylai'r practis ystyried storio'r holl gyffuriau ac offer brys yn yr un lle, er mwyn cael mynediad atynt yn hawdd pe bai argyfwng claf. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 14(2) | Mae'r ocsigen dadebru brys LIFELINE, a oedd yn cael ei storio yn ystafell driniaeth B ar adeg yr arolygiad, bellach wedi cael ei symud i'r cwpwrdd cyffuriau ac offer brys, er mwyn storio'r holl gyfarpar yn yr un lle, fel yr argymhellwyd gan AGIC | Vicky Piddington | Gweithredwyd ar 12/09/2016 |
| 13 | Rhaid i'r practis ddarparu cadarnhad ynglŷn â gwiriadau o offer pelydr-X a gynhaliwyd yn 2016 ar gyfer pob peiriant pelydr-X, ynghyd â'r canlyniadau. | Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 | Mae'r wybodaeth hon eisoes wedi'i hanfon trwy e-bost at Rebecca Collier (Arolygydd AGIC) ar 17/10/2016 | Vicky Piddington | Cwblhawyd ar 17/10/2016 |
| 13 | Rhaid i'r practis ffurfioli'r broses ar gyfer cydymffurfio â pharth gwahardd y peiriant pelydr-X sy'n cael ei rannau pan fydd yn cael ei ddefnyddio | Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 | Rhoddwyd polisi a gweithdrefn ar waith ar unwaith, gyda pharth gwahardd o ddau fedr pan fydd y peiriannau'n cael eu defnyddio | Vicky Piddington | Gweithredwyd ar 14/09/2016 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Dylai'r practis fynd ymlaen â'r gwaith o weithredu ei bolisi ei hun ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol, gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella yn rhan o weithgareddau'r practis i wella ansawdd. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel y bo'n briodol.** | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 14(2) | Mae polisi wedi'i lunio i archwilio/monitro'r practis, er mwyn amlinellu unrhyw feysydd i'w gwella neu gynlluniau/syniadau ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfnod o ddeg munud ar ôl pob cyfarfod practis chwarterol. | Vicky Piddington | Gweithredwyd ar 14/09/2016 |
| 14 | Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion sy'n cael eu cwblhau ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â gofynion rheoliadol a'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (1) (b) | Mae Mr P. J. Evans a Mr B. A. Brunswick<br>wedi trefnu cyfarfod ar gyfer dydd Llun 31ain Hydref i drafod y mater hwn, ac maent yn gobeithio gweithredu'r newidiadau angenrheidiol. Mae ffurflenni hanes meddygol newydd wedi'i llunio a'u hargraffu i adlewyrchu'r newidiadau angenrheidiol. Mae Mr Brunswick wedi mynychu cwrs a gynhaliwyd gan y Grŵp Amddiffyn Deintyddol ar gyfer cofnodi hanes meddygol a chydsyniad gwybodus. | Mr P. J. Evans<br>Mr B. A. Brunswick | Cwblhawyd 31/10/2016 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 15 | Rhaid i'r practis gynnal adolygiad o'r holl bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn benodol i'r practis, ac i ffurfioli'r broses ar gyfer cyfathrebu newidiadau i'r holl staff. | Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd | Ar 12fed Hydref 2016, cynhaliwyd adroddiad llawn gyda'r holl staff o'r polisïau a'r gweithdrefnau a gedwir yn y practis. Lluniwyd taflen lofnodi ffurfiol, a bydd yn cael ei defnyddio yn y dyfodol os oes unrhyw newidiadau i'r polisïau neu'r gweithdrefnau. | Vicky Piddington | Cwblhawyd 12/10/2016 |
| 16 | Mae angen i'r practis ddatblygu cyfarfodydd staff ffurfiol gyda chofnodion ysgrifenedig. | Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 6 | Mae'r practis wedi trefnu cyfarfodydd practis ymlaen llaw trwy eu rhoi yn y calendr apwyntiadau bob tri mis, a bydd rheolwr y practis yn cadw cofnodion o'r cyfarfodydd hyn. | Vicky Piddington | Wedi eu trefnu ymlaen llawr ar gyfer mis Ionawr/Ebrill /Gorffennaf/ Hydref 2017 |
| 16 | Rhaid i bob deintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat feddu ar dystysgrif | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i | Rydym wedi derbyn tystysgrif gyfredol ar gyfer Mr Philip Evans, ac mae wedi'i ffeilio yn ei ffolder bersonol. | Vicky Piddington | Cwblhawyd ar 27/09/2016 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i chyflwyno i AGIC i'w harchwilio. | diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 13(3)(c), Atodlen 2 | | | |

**Cynrychiolydd y practis:** ........................................................................................

**Enw (llythrennau bras):** Mrs Vicky Piddington...................................................

**Teitl:** Rheolwr y Practis.........................................................

**Dyddiad:** 2/11/2016.........................................................................

..